

Mae defnyddwyr Cymru'n prynu diodydd oer, ond yn llai aml na chyfartaledd Prydain. Ac eithrio gwasanaeth bwyd, mae gwerthiant diodydd i'w hyfed wrth fynd 26% yn is y flwyddyn yng Nghymru, gyda'r effaith yn fwyaf amlwg ar ddiodydd pefriog â blas a cola. Mae treiddiad ac amlder prynu is yn gyrru'r gostyngiad. Tra bo diodydd oer fel rheol yn cael eu prynu gydag eitem arall, yng Nghymru, mae defnyddwyr yn symud o ddiodydd oer at ddiodydd poeth a chategorïau bwydydd eraill.

Mae marchnad diodydd oer allan o'r cartref (ac eithrio gwasanaeth bwyd) yng Nghymru yn werth £170m a £2.8bn yng ngweddill Prydain. Yn wahanol i Brydain, lle mae pris yr uned ac amlder prynu wedi arwain ar gynnydd o 4.6% mewn gwariant, mae marchnad Cymru wedi gweld gostyngiad sylweddol, gan ostwng 25.9% y flwyddyn. **Mae'r data yn eithrio gwariant allan o'r cartref mewn tafarndai, bariau a gwestai; bwytai gwasanaeth llawn a bwytai cyflym cadwyni mawr (e.e. McDonalds).**

Roedd trwch y gostyngiad yn y ddwy is-sector fwyaf, sef diod pefriog â blas a cola. Gyda'i gilydd, maent yn cyfrif am 63% o farchnad Cymru, ac wedi colli £30m mewn gwerthiant o'i gymharu â'r 32 wythnos at Ionawr 2016.

Mae gwerthiant dŵr mwynol wedi cynyddu yng Nghymru, wedi'i yrru gan amlder uwch, ond mae diodydd eraill sydd â phremiwm pris o 40% yng Nghymru wedi gweld eu gwerth blynyddol yn gostwng ychydig wrth i dreiddiad leihau.

Gwerthir 38% o ddiodydd meddal allan o'r cartref trwy adwerthwyr lluosog, gan gyfrif am gyfran llawer uwch o'r gwerthiant na sianeli eraill o'i gymharu â gweddill Prydain. Mae'r data'n awgrymu fod adwerthwyr lluosog, symbolau ac annibynnol a siopau'r stryd fawr yn gweld gwerth allan o'r cartref yn gostwng, gyda'u prif categorïau, sef melysion, byrbrydau sawrus a diodydd oer dan bwysau wrth i ddefnyddwyr adael y categorïau.

Mae rôl prydau cynnig arbennig yn y farchnad yn newid, wrth i ddefnyddwyr chwilio am anghenion gwahanol, a bwyd i fynd ar wahanol adegau. Mae diodydd oer, sy'n aml yn cael eu prynu mewn cynigion arbennig, yn gweld defnyddwyr yn symud eu gwariant i categorïau prydau a diodydd poeth. Felly yn hytrach na'u prynu i gyd-fynd â phryd, mae diodydd oer yn colli gwerthiant i brydau. Ond mae'n werth nodi, yn y farchnad allan o'r cartref ehangach (yn cynnwys

gwasanaeth bwyd), mae gwerthiant diodydd oer 3.1% yn uwch, sy'n werth £2.2m gan fod yr elfen yn tyfu'n gryf.

Gyda sianeli fel siopau bara a brechdanau, gweithle ac addysg a bwytai bychain cadwyni bach yn gyrru twf yn y farchnad prydau cyflym, gallai cynyddu gwerthu diodydd gyda hwy yn y sianeli hyn yn cynyddu amlder a gwariant yn y farchnad.



25% yn cynnwys Pryd Cyflym  
(mynegai: 89)

23% yn cynnwys Byrbryd Melys  
(mynegai: 123)

17% yn cynnwys Byrbryd  
Sawrus  
(mynegai: 153)

#### Achlysuron Diodydd Meddal

55% o Achlysuron Diodydd Meddal Cymru hefyd yn cynnwys eitem sydd ddim yn ddiod meddal

51% o Achlysuron Diodydd Meddal gweddill Prydain yn cynnwys eitem sydd ddim yn ddiod meddal

Cyfanswm Allan o'r Cartref | Diodydd Meddal yng Nghymru a Phrydain ac eithrio Gwasanaeth Bwyd | Data 32 w at 01 Ion 2017

Mae Cymru'n tanfasnachu mewn diodydd meddal 'eraill' sy'n cynnwys diodydd meddal premiwm. Gallai sicrhau fod diodydd yn cwrdd ag anghenion niferus defnyddwyr, yn cynnwys iechyd, weld y bwlch yn cau a chyfle i fynd am gynnyrch premiwm ar 5.8m achlysur, gyda chyfle gwerth £2.2m yn y farchnad.

# Cip ar Ddiodydd Oer

---

Gallai defnyddwyr weld diodydd meddal fel trêt, a chadw achlysuron ar gyfer prydau mwy ffurfiol, fod yn effeithio ar y farchnad, wrth ystyried mwy ar iechyd.